

Dechrau Arni gydag OU Live

Dyma ganllaw cam wrth gam cyflym ar sut i gysylltu â'ch **sesiwn Gweminar**. Gweminar yw cyfarfod ar-lein sy'n digwydd mewn amser real. Ar sgrin eich cyfrifiadur byddwch yn gweld cyflwyniad, byddwch yn gwrando ar y cyflwynwyr a chewch gyfle i gyfranogi a gofyn cwestiynau drwy eich meicroffon neu drwy ddefnyddio testun.

Ac ni fydd yn rhaid i chi deithio am filltiroedd – gallwch ymuno â'r drafodaeth o gysur eich cyfrifiadur!

Awgrymiadau ar gyfer cymryd rhan mewn sesiwn

Ychydig o bethau i'w gwneud cyn y cyfarfod

- Dewiswch fan cyfforddus lle nad oes dim i dynnu eich sylw.
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r cyfrifiadur y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer eich sesiwn.
- Bydd angen cyfrifiadur cymharol newydd arnoch gyda'r feddalwedd Java ddiweddaraf. Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur yn y cartref, efallai y gallwch ddefnyddio un yn y llyfrgell neu gofynnwch i'ch canolfan gymunedol leol.
- Ffurfweddu eich system – Defnyddiwch y ddolen hon [V12.6 Configuration Room \(EU-SAS\)](#) i ddechrau sesiwn brawf. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi gadarnhau bod popeth yn gweithio cyn eich cyfarfod. Os mai hwn yw eich ymweliad cyntaf, bydd awgrym y dylech lawrlwytho a gosod ffeil osod 40MB yn ymddangos yn ystod y broses gyrchu. **Rhedwch** y rhaglen a dilynwch y camau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir.
- Dewiswch yr opsiwn '**Open**' ar y ffeil **meeting.collab**. Unwaith y bydd yr ystafell ffurfweddu wedi'i lansio dilynwch ganllawiau'r Dewin Gosodiad Sain ar y sgrin. Dylid defnyddio'r Dewin Gosodiad Sain cyn pob sesiwn i sicrhau bod eich sain yn gweithio'n gywir.
- Pan fyddwch yn barod gallwch adael y ffenestr hon drwy ddefnyddio'r botwm X yng nghornel dde uchaf y sgrin.
- Os oes gennych broblemau technegol cyn y sesiwn cysylltwch â threfnydd y weminar.

Ymuno â'r sesiwn – ar y dydd

- Sicrhewch eich bod wedi cysylltu â'r rhyngwyd. Ymunwch â'r sesiwn 10-15 munud cyn iddo ddechrau gan ddefnyddio'r ddolen rydych wedi ei chael. Bydd trefnwyr eich cyfarfod yn y rhith ystafell i'ch cyfarch.
- Gosodwch gyflymder eich cysylltiad â'r we pan fydd y meddalwedd wedi ei lansio e.e. 'Cable/DSL (band eang)', 'Diwifr' neu '56k'.
- Defnyddiwch y Dewin Gosodiad Sain i brofi eich meicroffon a'ch seinyddion.
- Rydym yn argymhell eich bod yn cau rhaglenni eraill ar eich cyfrifiadur tra'n cymryd rhan yn y weminar. Gall rhedeg cymwysiadau eraill arafu eich cysylltiad â'r sesiwn.
- ***Os oes gennych unrhyw broblemau technegol yn ystod y sesiwn, cysylltwch â'r cyflwynwyr, efallai y gallant gynnig help neu gyngor.***